Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

7 Ionawr 2021

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd (dros dro) Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Helen Mary Jones AS

Diolch am y cyfle i gynnig adborth i chi am ein hymwneud gyda'ch pwyllgor dros gyfnod y Senedd diwethaf ac am y cyfle i gyfrannu at waith y Pwyllgor.

Yn ein profiad ni mae gallu cynnig tystiolaeth i'r Pwyllgor wedi bod yn brofiad defnyddiol sydd wedi ein galluogi i godi proffil gwaith y Ganolfan, ac wedi'n galluogi i dynnu sylw at faterion sydd angen cael eu gwyntyllu a'u datrys. Mae argymhellion y Pwyllgor wedi bod yn ddylanwadol yn ein barn a'n profiad ni.

Credwn bod cynnal sesiynau rhithiwr yn cynnig cyfle i'r Pwyllgor ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn hwylusach ac yn amlach i'r dyfodol a byddwn yn croesawu hynny.

Fy mhrif gyngor ar gyfer y Senedd nesaf fyddai bod parhau i gynnull Pwyllgor sy'n rhoi sylw i faterion polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn hollbwysig, a bod bodolaeth y Pwyllgor ynddo'i hun wedi codi statws y maes polisi hwn.

Hoffwn nodi hefyd bod y staff cefnogol wedi bod yn broffesiynol ar bob adeg a diolch iddynt am eu gwaith manwl. Os hoffech adborth pellach mae croeso i chi gysylltu.

Yn gywir

Efa Gruffudd Jones

**EFA GRUFFUDD JONES**
Prif Weithredwr

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / National Centre for Learning Welsh
Heol y Coleg / College Rd
Caerfyrddin / Carmarthen
SA31 3EP

Ffôn / Telephone
0300 3234324

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

@learncymraeg

Rhif y cwmni / Company number: 09914004

Cymraeg Dysgu Learn

Llywodraeth Cymru Welsh Government